TEITHIAU CERDDED YN OWRTYN

Owrtyn i Trench (trwy Lightwood Green) 5 milltir / 8 km

Taith gerdded gylchol ddymunol a hawdd trwy gaeau ac un neu ddwy goedwig, gan gynnwys rhai rhannau hanesyddol o ardal Owrtyn. Mae arwyddion ar hyd yr holl daith, yn debyg i bob taith gerdded yn Owrtyn. Dilynwch y saethau melyn i ddod o hyd i'r gamfa neu glwyd nesaf.
Nid yw'r daith gerdded yn addas i gadeiriau olwyn, bygis na phlant bach.
Mae gwasanaeth bws da i Owrtyn. Gwybodaeth: 01978 266166.

1. O'r maes parcio ger eglwys Owrtyn, trowch i'r dde (ar Ffordd yr Eglwys) ac yna i'r chwith ar y groesffordd i'r ffordd fawr (A539 Wrecsam-Eglwys wen). Croeswch y ffordd hon ac ewch ar hyd y dramwyfa gro. Cerddwch trwy ardd y Tŷ Trydan, gan gadw'r tŷ ar eich ochr dde ac ewch i mewn i'r cae dros gamfa isel. Cerddwch yn syth yn eich blaen dros y caeau a thros chwe chamfa arall.

2. Ewch yn eich blaen a dringwch y gamfa nesaf lle mae'r llwybr yn rhannu. Trowch yn hanner i'r dde. Ar ôl 100 metr, croeswch y gamfa ac ewch tuag at y y cafn concrid mawr yng nghanol y cae. Tu hwnt i hwn, mae'r llwybr yn disgyn i ardal fach o brysg. Croeswch y nant, trowch i'r dde ar hyd trac concrid y fferm ac yna i'r chwith ar y ffordd (Lôn Musley).

3. Dilynwch Lôn Musley i ddisgyn i bant ac ewch dros bont fach. Dringwch y gamfa ar y dde ar ôl cerdded heibio i'r glwyd fach, ar yr ochr dde. Cerddwch ar hyd ochr dde'r cae ac ewch dros y gamfa ger y tŷ yng nghornel y cae. Croeswch y ffordd darmac a pharhewch ar hyd y trac gro gyferbyn. Cerddwch heibio i Mayfield ar y dde ac yna trowch i'r chwith tu blaen i Meadowside.

4. Parhewch ar hyd y llwybr ceffyl. Ger y gyffordd nesaf, anwybyddwch y llwybr ceffyl ar y chwith a pharhewch yn syth ymlaen. Ger mynedfa Cartref Cŵn a Chathod Lightwood, dilynwch y ffordd darmac i'r chwith. Parhewch i gerdded heibio i bwll yr hen waith brics ar y chwith ac, ar y dde, tŷ mawr gwyn (Tŷ'r Orsaf) lle arferai gorsaf Owrtyn fod.

5. Croeswch hen bont y rheilffordd a lle mae'r ffordd darmac yn gwyro i'r chwith (ger Bwthyn Oakleigh), trowch i'r dde ger arwydd y llwybr troed cyhoeddus. Cerddwch i ddiwedd y lôn trwy'r glwyd ar yr ochr dde a cherddwch ar hyd y clawdd ar y chwith. Dilynwch y clawdd yr holl ffordd i Fferm Trench y mae modd gweld ei dwy seilo ar y nenllinell hanner ffordd i'r dde.

6. Wrth gornel y cae, croeswch y gamfa a dilynwch y llwybr i'r chwith. Ar ôl 20 metr, ewch dros y gamfa a pharhewch syth ymlaen i groesi'r gamfa nesaf ger y pwll pysgod. Rydych wedi ailymuno â thrac yr hen reilffordd Ellesmere nawr. Croeswch y gamfa a gwyrwch i'r dde o gwmpas y pwll i groesi'r gamfa nesaf. Croeswch y cae gan gadw at y clawdd a'r fferm ar y dde. Croeswch y gamfa ger cafn dŵr ac ewch dros gamfa ymysg y coed conifferaidd i dramwyfa'r tŷ. Ar ddiwedd y dramwyfa, trowch i'r dde i'r ffordd ac,

ar ôl 30 metr, ewch trwy glwyd cae fetel ar y dde a dilynwch y llwybr gan wyro i'r dde o gwmpas ymyl yr ardd i gamfa gyferbyn â'r hen gytiau moch.

7. Dilynwch yr arwyddion gan gadw adeiladau'r fferm ar y dde i drac y fferm sy'n symud i ffwrdd o'r fferm. Trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd trac y fferm a thros y bont. Trowch hanner i'r dde, ewch heibio i bwll a thraws y cae i fynd trwy fwlch yn y clawdd ger cafn dŵr. Trowch hanner i'r chwith a cherddwch ar hyd y gwrych ar y chwith.

8. Cerddwch i gornel y cae. Croeswch y gamfa a throwch i'r chwith heibio i'r pwll. Dilynwch y gwrych ar y chwith i grŵp o 5 clwyd ger hen gafn trochi defaid. Ewch trwy 2 glwyd a gwyrwch hanner i'r dde ar draws y cae. Ewch heibio i bwll, croeswch y gamfa yng nghornel y coed a dilynwch y llwybr dros bont ac i fyny'r allt, gan adael y coed trwy'r glwyd ar y pen. Cerddwch ar hyd y clawdd ar y dde ar y llwybr cerrig. Ewch trwy ddwy glwyd a gadewch y trydydd cae dros gamfa i'r ffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd heibio i Fferm Musley.

9. Ewch dros y gamfa ar y chwith, gyferbyn â chlwydi'r fferm, trowch hanner i'r dde a pharhewch i'r gamfa nesaf rhyw 100 metr i ffwrdd. Ewch yn syth i'r gamfa nesaf a'r bont a throwch hanner i'r chwith i fyny'r llethr. Gwyrwch i'r chwith o'r coed ar y grib. Cerddwch i'r dde o'r hen fyncer MOD i gamfa, yna parhewch syth ymlaen i'r byngalo i gyrraedd camfa i'r chwith o'r glwyd.

10. Cerddwch ar draws y cae tuag at y byngalo. Pwyllwch ger y gamfa* sy'n arwain i'r A528 ac edmygwch yr olygfa orau yn Owrtyn cyn troi i'r dde ger y pwll sydd ar y chwith i ddilyn y clawdd yn ôl i Lôn Musley. Ger y gamfa, trowch i'r chwith ar Lôn Musley. Ar ddiwedd y lôn, trowch i'r dde ar Ffordd Swydd Amwythig. Ewch syth yn eich blaen ar y groesffordd a dychwelwch i'r maes parcio.

*Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd pencadlys cangen Owrtyn o'r Corfflu Gwylio ger y gamfa hon a byddai'n gwylio am awyrennau'r gelyn a anelai at Lerpwl. Mae'r golygfeydd bendigedig a helaeth dros yr afon Dyfrdwy tuag at Wrecsam a Chaer yn amlygu pam y dewiswyd y man hwn.

Cynhyrchwyd y daith hon gan Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint â chymorth Ken Farrell a Gordon Emery a chymorth grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Diweddarwyd hi â chymorth ychwanegol oddi wrth Ken a pharatowyd hi ar gyfer y we yn 2006 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Anfonwch eich lluniau digidol atom ewch i www.wrexham.gov.uk/walks i gael manylion llawn.

Soniwch am unrhyw broblemau trwy anfon ebost at rightsofway@wrexham.gov.uk neu ffonio 01978 292057.

DILYNWCH Y CÔD CEFN GWLAD

PARCHU – DIOGELU - MWYNHAU

Byddwch yn ddiogel – blaengynlluniwch a dilynwch unrhyw arwyddion

Gadewch glwydi ac eiddo fel ag yr oeddent

Gwarchodwch blanhigion ac anifeiliaid ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

Cadwch eich cŵn dan reolaeth

Ystyriwch eraill